O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 16 (Cy. 7)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Croes Cwrlwys i Gapel Llanilltern, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

Gwnaed	*11 Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*18 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith a wneir arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Ionawr 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Croes Cwrlwys i Gapel Llanilltern, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 18 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A4232